YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

# CAIS AM ABSENOLDEB AWDURDODEDIG/HYSBYSIAD O ABSENOLDEB YN YSTOD Y TYMOR

**Cyn gwneud cais i fynd ar wyliau yn ystod y tymor, ystyriwch y canlynol:**

Mae presenoldeb isel parhaus yn ffactor a gysylltir yn aml â lefelau isel o lwyddiant academaidd, a gall gael effaith ddifrifol ar gyfleoedd yn nes ymlaen mewn bywyd. Bydd plant sy'n absennol o'r ysgol yn ystod y tymor yn colli cyfleoedd dysgu pwysig - ni ellir ailbrofi profiadau addysgol yn ddiweddarach. Ni fydd athro'ch plentyn yn gallu ailgyflwyno'r holl waith y mae eich plentyn wedi'i golli. Oherwydd yr angen am fewnbwn gan yr athro/disgybl mewn llawer o'n profiadau dysgu, nid yw bob amser yn ymarferol i roi gwaith i chi ei gwblhau yn ystod yr absenoldeb. Fel rhiant/gofalwr, gallwch ddangos eich ymrwymiad i addysg eich plentyn drwy, lle bynnag y bo modd, osgoi absenoldebau yn ystod tymor yr ysgol. Mae'n bwysig nad yw absenoldebau yn ystod y tymor yn cyfrannu at ddatblygu arferion presenoldeb gwael sy'n anodd cael gwared arnynt yn nes ymlaen.

Ar gyfer gwyliau: Sylwer **nad oes hawl awtomatig i dynnu disgyblion o'r ysgol ar gyfer gwyliau**, ac mae'r ffurflen hon, os yw'n gais at y diben hwnnw, yn gais am ganiatâd yn unig. Ceir rhywfaint o ddisgresiwn i bennaeth gytuno ar eich cais, ac yn unol ag arweiniad cenedlaethol, caiff absenoldeb eich plentyn/plant ei farnu yn ôl ei haeddiant ac efallai **na chaiff ei awdurdodi**. Gweler polisi'r ysgol ar bresenoldeb (ar wefan yr ysgol). Cewch eich hysbysu am y penderfyniad yn fuan.

Sylwer: **Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi na all ysgolion awdurdodi gwyliau o edrych yn ôl.**

Os bydd eich plentyn yn cronni lefel o absenoldeb anawdurdodedig sy'n arwain at bresenoldeb sy'n is na 90% yn ystod y flwyddyn, gall yr awdurdod lleol (gan ddibynnu ar yr amgylchiadau) roi hysbysiad o gosb benodol neu gychwyn erlyniad ffurfiol am beidio â sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Mae manylion llawn y cynllun cosb benodol ar gael ar wefan Dinas a Sir Abertawe.

## Adran A:

RHAID I'R ADRAN HON GAEL EI CHWBLHAU GAN Y RHIANT/GOFALWR A RHAID ANFON Y FFURFLEN GAIS HON I'R YSGOL CYN GYNTED Â PHOSIB CYN YR ABSENOLDEB - YN DDELFRYDOL, PYTHEFNOS CYN HYNNY.

Enwau'r Disgyblion:

1. ........................................................................ Dosbarth:.............................
2. ........................................................................ Dosbarth:.............................
3. ........................................................................ Dosbarth:.............................

Dyddiadau absenoldeb: O..................................Tan: .............................. Nifer y diwrnodau absenoldeb: ...............

Cyfeiriad/manylion cyswllt gwyliau (at ddibenion gweithdrefnau amddiffyn plant): ______________________________

A oes brawd/brodyr neu chwaer/chwiorydd mewn ysgol arall a fydd hefyd yn absennol am yr un rhesymau. Os felly, nodwch enw(au) y plentyn/plant a'r ysgol: ______________________________

Fy marn ynghylch mynd ar wyliau yn ystod y tymor, y rhesymau dros wneud hyn a'i ddiben (parhewch ar daflen ar wahân os oes angen)

______________________________

______________________________

Llofnod: ........................................................................ Rhiant/Gofalwr Dyddiad: ..................

Os nad yw'r disgybl/disgyblion yn dychwelyd erbyn y dyddiad cytunedig, mae/maent mewn perygl o golli ei le/eu lle yn yr ysgol, a gellir ei dynnu/eu tynnu o gofrestr yr ysgol yn unol ag Adran 4 arweiniad derbyniadau Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010, sy'n nodi 'bod disgyblion wedi rhoi'r gorau i fynychu'r ysgol ac nid ydynt yn byw o fewn pellter rhesymol i'r ysgol mwyach'. Sylwer na allwn sicrhau y bydd lle ar gael i'ch plentyn yn yr ysgol o'ch dewis pan fyddwch yn dychwelyd, ond cynigir lle i chi yn yr ysgol agosaf y mae lle ar gael ganddi yn y grŵp blwyddyn. Gall peidio â dychwelyd ar y dyddiad cytunedig arwain hefyd at bryderon lles: gellir ystyried bod plentyn sy'n mynd ar goll o addysg mewn perygl o niwed sylweddol. Caiff unrhyw bryderon o'r fath eu cyfeirio at yr awdurdodau statudol i'w hystyried.

Dyddiad: ______________________ Derbyniwyd gan yr ysgol: ______________________

Llofnod: ______________________

Dychwelwch i Swyddfa'r Ysgol.


Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600 Ffacs 01792 560601
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies



Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

YSGOL SY'N PARCHU HAWLIAU UNICEF

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Au